

**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**  
CYFARFOD 7.30 p.m. 18 o fis Hydref 2021

**Yn Bresennol:** Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Phillip Jones, Cyng. Eifion Jones .

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Wyn Evans, Cyng. Eurig Rees, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Sir, Irfon Jones.

**Materion Personol / Cyhoeddiadau**

|           |   |
|-----------|---|
| <b>48</b> | <p><b><u>Datgelu Buddianau Personol</u></b> -<br/>Cyng. Phillip Jones yn datgan ei fod a chysylltiad drwy ei waith yn gysylltiedig a chais cynllunio PL/02680 ac felly ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Mae ei ddi-ddordeb wedi ei nodi ac arwyddo.</p>   |
| <b>49</b> | <p><b>Cadarnhau'r Cofnodion - 20.09.21</b><br/>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.09.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Delme Phillips.</p>  |
| <b>50</b> | <p><b><u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"><li><b>a.</b> <u>Gwasanaeth Bws 460</u> - y mater yn parhau .</li><li><b>b.</b> <u>Cylch Meithrin Bro Elfed</u> - Llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth pwyllgor Cylch Meithrin Bro Elfed - gweler gohebiaeth.</li><li><b>c.</b> <u>Cais am bin sbwriel yng Ngwmdud</u> - dal i aros am ymateb oddi wrth y Cyngor Sir.</li><li><b>d.</b> <u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> -Mae'r gwybodaeth ynghylch glanhau'r cyfleusterau wedi'i dderbyn ac wedi'i ddanfon ymlaen i'r Cyngorydd Julian Evans.</li><li><b>e.</b> <u>Ynni EDF</u> - Mae'r clerc wedi cael gwybodaeth bydd contract ynni EDF yn dod i ben ar 31.3.22. Yn y gorffennol mae Gwasaneth Masnachol y Goron wedi bod yn delio gyda'r cwmnïau ynni ar ran y Cyngor Sir. Mae gan y Cyngor Gymuned yr option naill a'i cadw at y trefniad presennol neu optio allan. Mae'r clerc yn aros am ragor o wybodaeth am hyn.</li><li><b>f.</b> <u>Carafannau statig</u> - Yn dilyn gwybodaeth blaenorol fod yna gynnydd amlwg yn nifer y</li><li><b>g.</b> Carafannau statig yn yr ardal, nododd y Cadeirydd nad oedd cyfeiriadau na gwybodaeth swyddogol pellach wedi ei dderbyn gan y Clerc ar gyfer cyfeirio y mater at y Cyngor Sir, fel y medrant wneud ymholiadau.</li><li><b>h.</b> <u>Cyfrifiadur</u> - Penderfynnodd y Cyngor, gydag angen cynyddol i gadw Cofnodion y Cyngor yn electronig, ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor fuddsoddi mewn gliniadur sy'n addas ar gyfer y gwaith - mater yn parhau.</li><li><b>i.</b> <u>Rhiant wedi danfon plentyn i'r ysgol anghywir</u>- Clerc heb derbyn manylion/gwybodaeth ysgryfnedig ynghylch y mater ac felly yn methu â dilyn i fyny.</li></ul> <p><u>Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y cynnig arfaethedig i gostwng terfyn cyflymder i 20 m.y.a. ar ffyrdd cyfyngedig</u><br/>Cyng. Bryan Davies a'r Clerc wedi methu cwblhau'r ddogfen yn y Gymraeg er iddynt gysylltu a'r adran.</p> |

51

**Gohebiaeth**

Mae copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.

- a.** Cylch Meithrin - Llythyr wedi'i derbyn oddi wrth Nerys Defis ar ran pwyllgor ac ymddiriedolwyr Cylch Meithrin Bro Elfed. Mae'r pwyllgor wedi cael anhawster cael ymateb i'w hysbysebion ar gyfer staff, gyda'r pumed hysbysebiad allan nawr. Penderfynwyd bod y Cyngor yn cefnogi Pwyllgor Cylch Meithrin Bro Elfed yn eu hymdrech i sefydlu darpariaeth meithrin yn Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed.
- b.** Darllenwyd sawl llythyr a dderbyniwyd oddi wrth trigolion Cynwyl Elfed. Roedd y mater o bryder i ymwneud â diogelwch ar y ffordd drwy Cynwyl Elfed, gyda llawer iawn o draffig yn mynd dros y terfyn cyflymder drwy'r pentre. Pryder bod cerbydau o bob maint yn mynd ar y palmant er mwyn mynd heibio eu gilydd. Yn dilyn ymweliad mis diwethaf gyda John Williams, Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, mae'r Cyngor wedi derbyn rhagor o wybodaeth am cynllyn Gwylio Cyflymder Cymunedol. Trafodwyd posibilrwydd o ffordd osgoi Cynwyl Elfed ac hefyd maes parcio chymdeithasol. Penderfynwyd yn gyntaf edrych i fewn i'r posibilrwydd o greu adran parcio a chymdeithasu y tu ôl i faes parcio y Blue Bell, hyn ar waelod darn o dir yn eiddo i Mrs Gaynor Davies, Green Hill (Llethr Moel gynt). Penderfynwyd cysylltu i weld a oedd modd y medr Mrs Davies werthi y darn yma o dir. Os felly, yna cysyllti gyda'r Cyngor Sir am y ffordd ymlaen fel y medr cerbydau trigolion y pentref sydd yn parcio ar y ffordd fawr ac ymwelwyr i'r siop lleol, Blue Bell a phreswylfeydd eraill barcio yma.
- c.** Diffibriliwr - e-bost oddi wrth Nicholas Richards-Ozzati, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn dweud ei fod yn bwysig i gofrestri pob diffibriliwr ar "The Circuit" er mwyn gwneud y defnydd gorau ohonynt mewn argyfwng - Clerc wedi cysylltu a'r Cyng. Julian Evans sydd yn mynd i osod yr ail diffibriliwr i'r pentref ar wal allanol Neuadd Cynwyl Elfed yn y wythnos i ddod.

**Cynllunio**

**PL/02655**-Gosod gwaith trin carthffosiaeth preifat a newid defnydd yr adeilad presenol i bloc toilet a chawod mewn safle carafanau ardystiedig - Rose Villa, Cynwyl Elfed SA33 6SY. Yn dilyn cyfarfod Mis Medi daeth gwybodaeth i law nad oedd yr holl wybodaeth wedi'u cyhoeddi ar gwefan Cyngor Sir Gaerfyrddin i alliogu'r Cyngor i wneud penderfyniad hyddisg mis diwethaf a thynnwyd y llythr cefnogaeth yn ôl hyd nes bod rhagor o wybodaeth wrth law. Erbyn hyn mae'r Cyngor yn bles bod y gwybodaeth wrth law ac fe Trafodwyd y mater eto. Penderfynodd y Cyngor gefnogi Cais Cynllunio PL/02655.

**PL/02680**- Storfa faetholion concrit wedi'u cau i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dwr (Rheoli Llygredd Amaethyddol)(Cymru) 2021.- Penfoel-caru, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, SA33 6UN. Trafodwyd cais PL/02680 a phenderfynodd y Cyngor cymeradwyo'r penderfyniad a wnaed gan yr is-bwyllgor i gefnogi Cais PL/02680.

**PL/02825** - Newidiadau estyniad a deunydd Tylana, Cwmdud SA33 6AT Trafodwyd cais PL/02825 . Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol i gefnogi Cais PL/02825 .

**PL/02744** - Newid arfaethedig i'r defnydd o dir o amethydiaeth i drac motocròs ar gyfer sesiynau ymarfer a rasio -Tir Bwlchyrallt, Cwmdud, Caerfyrddin SA33 6AT. Roedd Mr D Rees a Mr R Williams sydd a'i cartrefi yn ffinio gyda'r safle yn bresennol a dyrannwyd tri munud i Mr Rees siarad â'r cyfarfod gan mae ei hawl yw gwneud hynny. Roedd y Cynghorwyr wedi derbyn copiau o'r dogfennau sydd ar gael ar wefan y Cyngor Sir cyn noson y cyfarfod ac yn gyfarwydd â'r manylion a gyhoeddwyd ynglŷn a'r cais. Roedd y Cynghorwyr ddim yn meddwl bod yr asesiad swm presenol yn asesiad cywir o'r swm a brofwyd yn wirioneddol yn ystod yr adeg mae'r trac rasio yn cael ei ddefnyddio. Penderfynwyd i hargymell Cyngor Sir Gaerfyrddin i wneud asesiad swm hefyd.

Penderfynwyd ddim i gefnogi y Cais Cynllunio o'u blaen am y resymau canlynol: Ddim digon o wybodaeth manwl ar y Cais Cynllunio - yn gadael y cais yn agored iawn.

Pryderon am yr amgylchedd , anifeiliaid ac adar gwyllt, blodau a phlanigion gwyllt, y cwrs dwr. Dim trefniadau rheoledig i gasglu a gwaredu ysbwriel , enwedig tanwydd, olew, glanedyddion a chemegau sydd yn gysylltiedig a'r gweithgareddau arfaethedig.

Traffig - ffordd yn gul . Ddim yn addas i chynnydd mewn traffig. Dim lleoedd parcio dynodedig. Nid oes digon o ardal o laswellt i ddarparu lleoedd parcio addas o fewn y ffindir coch ar y cynllun sydd wedi'i fapio allan. All hyn arwain at rai gyrrwyr yn parcio wrth ymyl y ffordd gan greu anhawster i gerbydau mawr a'r gwasanaeth brys.

Penderfynwyd bydd y Cyngor yn croeshawy ymweliad safle gan y Cyngor Sir gyda chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Cynwyl Elfed yn bresennol.

|            |   |                     |
|------------|---|---------------------|
| <b>53.</b> | <b><u>Taliadau a Chyllud</u></b>  |                     |
| <b>a.</b>  | Cyflog y Clerc - 31.09.2021<br>H.M.R.C.   | £214.15<br>£160.60  |
| <b>b.</b>  | Dwr Cymru- Cyflenwad dwr Cyfleusteru<br>Cynwyl Elfed 0 19.04.21 i 7.10.21   | £138.67             |
| <b>c.</b>  | EDF Energy-Trydan Cyfleusterau Cynwyl Elfed   | £56.07 wedi'i dalu. |
| <b>d.</b>  | Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed<br>llogi'r Neuadd 09/21 ac 10/21   | £30.00              |
|            | Penderfynodd y Cyngor dalu'r biliau uchod a chymeradwyo'r taliad i ynni EDF.  |                     |
| <b>54.</b> | <b><u>Materion Prifffyrdd</u></b><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o waith wedi'i gwblhau yn y plwyf ac yn dymuno i'r clercc ddanfôn e-bost i fynegi gair o ddiolch i'r Cyngor Sir. |                     |
| <b>a.</b>  | B4333 - SA33 6SU - Rhwng Ffos y Ffin a Pant y Pedyll - Gratyn wedi cwmpo gan creu twll mawr ar yr ochr chwith o'r ffordd. Yn beryg i yrrwyr.  |                     |
| <b>55</b>  | <b><u>Unrhyw Mater Arall</u></b>  |                     |
| <b>56</b>  | <b><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u></b><br><br>Nos Lun 15 Mis Tachwedd 2021 am <b>19.30 awr</b><br><br>Daeth y cyfarfod i ben am 21.45 awr  |                     |

**Arwyddwyd.....**

**Dyddiad.....**